Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Preseli

Crymych
Preseli
Sir Benfro
SA41 3QH

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Preseli

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Preseli |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 932 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 776 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 118 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | 17 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 20.2%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 8.6%) | 2.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 49.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 29/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/10/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Preseli yn gymuned hapus, falch a chyfeillgar lle mae staff a disgyblion yn mwynhau dysgu yng nghwmni ei gilydd. Mae gweledigaeth uchelgeisiol y pennaeth o ddatblygu'r disgyblion 'O'r Gwreiddiau i'r Gorwelion' i'w gweld a'i theimlo ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae staff yn cynllunio cwricwlwm a phrofiadau dysgu gwerthfawr ac yn cynnig myrdd o weithgareddau allgyrsiol llesol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y weledigaeth hon. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu balchder yn eu milltir sgwar, yn ffynnu yn eu dysgu a'u datblygiad cymdeithasol ac yn barod am y cam nesaf yn eu dysgu.

Nodwedd arbennig ymysg arweinwyr a staff yw'r cyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio effeithiol er mwyn gwireddu amcanion penodol. Pan mae arweinwyr yn adnabod maes penodol i'w ddatblygu, maent yn llwyddo i ysgogi staff i ymgymryd â'r gwaith gwella a'i berchnogi. Er enghraifft, datblygodd arweinwyr strategaeth ysgol-gyfan i wella medrau llythrennedd disgyblion, gyda ffocws arbennig ar gryfhau medrau darllen. Yn sgil cyfarwyddyd a chefnogaeth bwrpasol, mae gan staff ddealltwriaeth glir o'u rol a'u cyfrifoldeb i ddatblygu'r  medrau hyn. O ganlyniad, maent yn darparu cyfleoedd buddiol a heriol i ddisgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus a medrus yn unol â'u hoedran a'u gallu.

Mae'r cyd-berthynas rhwng disgyblion a staff yn gadarnhaol a pharchus. Mae ymddygiad ac agweddau at ddysgu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ardderchog. Mae llawer o athrawon yn cynllunio sesiynau dysgu'n ofalus i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn mwynhau cyflawni tasgau diddorol. Mewn lleiafrif o achosion, lle mae'r addysgu yn hynod effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Ceir trefniadau gwerthuso a gwella pwrpasol ac mae arweinwyr yn ystyried effaith eu gwaith ar y ddarpariaeth ac ar les disgyblion yn rheolaidd. Maent yn arfarnu ansawdd yr addysgu trwy weithgareddau monitro sefydledig ond nid yw pob arweinydd yn rhan o'r gwaith gwerthuso hwn ac nid yw arfarniadau'n  nodi'n ddigon clir effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol ac yn cefnogi gwaith yr ysgol yn fuddiol. Rhoddir ystyriaeth deilwng i leihau effaith tlodi a thlodi cefn gwlad ar les a chyflawniad disgyblion. Maent yn rhannu'r uchelgais o ymgyrraedd at lefelau llesiant uchel ymysg y disgyblion. Er bod presenoldeb disgyblion yn y sector cynradd wedi gwella dros amser, nid yw cyfraddau presenoldeb disgyblion yn y sector uwchradd, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim, wedi gwella digon.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1. Gwella presenoldeb disgyblion yn y sector uwchradd, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim

A2. Sicrhau bod arweinwyr canol yn chwarae rhan lawn mewn arsylwadau gwersi er mwyn cryfhau eu gallu i arfarnu effaith yr addysgu ar y dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu strategaeth ysgol-gyfan i wella medrau darllen disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Bro Preseli agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos parch at staff ac yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau eu cyd-ddisgyblion. Maent yn aros eu tro i ateb neu gyfrannu ac yn ymateb yn gadarnhaol i dasgau gan ddyfalbarhau'n ddiwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n gynhyrchiol a llwyddiannus mewn parau neu grwpiau ar dasgau annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn trin eu llyfrau â pharch, yn sicrhau diwyg taclus iddynt ac yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus.

Ym mron pob achos, mae athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol dda ac yn fodelau iaith buddiol i'r disgyblion. Nodwedd arbennig yw'r ffordd mae'r athrawon yn datblygu perthnasoedd gwaith agos a chynhaliol â'r disgyblion ac yn meithrin amgylchedd diogel lle nad oes ofn gwneud camgymeriadau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig gweithgareddau cychwynnol defnyddiol i atgyfnerthu dysgu blaenorol ac yn cyfleu amcanion y wers yn glir. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu haddysgu'n fuddiol. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn cynllunio'u gwersi'n ofalus. Yn yr achosion hyn, mae cyfres gwerth chweil o weithgareddau i hybu dealltwriaeth bynciol a medrau'r disgyblion, gyda lefel yr her yn codi'n addas wrth i'r sesiwn fynd rhagddi. Yn gyffredinol, ceir cyflymder priodol i'r dysgu. Yn aml, mae athrawon yn cynllunio gwaith ysgogol a diddorol i ennyn chwilfrydedd disgyblion. Maent yn ymestyn y disgyblion mwy abl ac yn cefnogi'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae llawer o athrawon yn ysgogi defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus tra bod disgyblion yn trafod â'i gilydd. Mae'r athrawon hyn yn modelu atebion a chysyniadau yn effeithiol fel bod disgyblion yn deall gofynion tasgau ac yn gallu eu cwblhau'n gywir. Mae llawer yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, yn cynnig anogaeth a chanmoliaeth ddoeth ac yn symud o gwmpas i gefnogi dysgu disgyblion mewn modd rhagweithiol. Nodwedd arbennig yw'r cysondeb yn ansawdd technegau holi llawer o athrawon. Maent yn defnyddio cwestiynau caeedig yn briodol, ac yn defnyddio rhai agored yn fedrus i brocio ac ymestyn ymatebion y disgyblion. Mae hyn yn sbarduno disgyblion i feddwl drostynt eu hunain a datblygu'u hannibyniaeth yn fuddiol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion, er enghraifft drwy ailymweld â meini prawf llwyddiant wrth asesu eu gwaith. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ailddrafftio darnau, ac mae esiamplau da o ddisgyblion yn ymateb i

gyngor ar sut i wella. Mae athrawon yn gyson wrth gywiro gwallau iaith, cystrawen a chamsyniadau gramadegol yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion ar draws nifer o bynciau. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r gwaith asesu'n cael digon o effaith. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i dargedau neu nid ydynt yn rhoi sylwadau penodol ar sut i wella.

Mewn ychydig o achosion, ceir diffygion yn yr addysgu sy'n golygu nad yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent. Mae'r rhain yn cynnwys cyflymder anaddas i'r dysgu a chynllunio aneffeithiol sy'n arwain at ddiffyg cynnydd neu ddiffyg defnydd o gwestiynau agored neu ddilynol.

O ganlyniad i addysgu cadarn mewn llawer o achosion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwyliedig o ystyried eu hoedran a'u gallu, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mewn lleiafrif o sesiynau ar draws yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd buan. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae gan lawer ohonynt afael dda ar gysyniadau pynciol ac maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth a'u gallu i gymhwyso'u gwybodaeth mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y rhan fwyaf o feysydd. Er hyn, mewn ychydig o sesiynau, mae disgyblion yn straffaglu i adalw gwybodaeth neu gysyniadau ac yn llai llwyddiannus wrth gymhwyso gwybodaeth flaenorol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd.

Mewn gwersi ymarferol, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio offer arbenigol megis cyfarpar gwyddonol, offer chwaraeon, camerâu ac offer cegin. Mae medrau corfforol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn o oedran cynnar ac mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ymarfer corff yn hynod gadarnhaol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau modur mawr a mân yn ogystal â hyder corfforol wrth ddefnyddio amrediad o offer pwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol drwy feistroli'r grefft o ganfod lle, driblo, pasio a dal pêl gyda thechneg gywir.

Mae llawer yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr mewn sesiynau celf ac wrth gyfansoddi a pherfformio dramâu bychain yn y sesiynau drama. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ysgrifennu'n greadigol mewn arddulliau penodol mewn sesiynau Cymraeg a Saesneg.

## Datblygu medrau llythrennedd

Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygu medrau llythrennedd disgyblion ac mae'r gwaith hwn wedi arwain at safonau uchel a chyson ar draws yr ysgol, yn enwedig mewn medrau darllen. Rhoddir ystod o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion wella eu medrau llythrennedd ar draws yr ystod oedran. Mae 'sesiynau sgiliau' boreol,

sialensiau ieithyddol cyson, profion sillafu a chynghreiriau cystadleuol yn sicrhau bod pob athro dosbarth yn cyfrannu at gynnydd disgyblion yn eu medrau llythrennedd.

O ganlyniad i gyfeiriad strategol clir a chynllunio manwl, mae athrawon yn darparu gweithgareddau ymarferol buddiol sy'n caniatáu i ddisgyblion  ddatblygu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu pwrpasol o fewn sesiynau iaith ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad eraill. Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, ceir gweithgareddau gwerthfawr sy'n datblygu llafaredd disgyblion yn fuan a chadarn. Mewn dosbarthiadau eraill yn y sector cynradd, mae ardaloedd fel y 'lloches llythrennedd' yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau difyr ac ysgogol. Yn y sector uwchradd, mae cynllunio bwriadus yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ehangu eu medrau llythrennedd mewn llawer o bynciau tu hwnt i'r Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys tasgau pwrpasol i ddatblygu uwch fedrau darllen a medrau ysgrifennu estynedig. Mae hyn yn nodwedd gref.

Ar draws y pynciau, mae'r cyfleoedd cyson a bwriadus i ddatblygu llafaredd disgyblion wedi arwain at safonau siarad a gwrando cryf iawn. Mae hyn yn cynnwys holi cwestiynau pwrpasol a darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gyd-drafod mewn grwpiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus wrth siarad a thrafod ar lafar mewn parau. Mae lleiafrif ohonynt yn siarad iaith raenus ac yn rhoi ymatebion estynedig deallus. Nodwedd arbennig yw'r ffordd y mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn siarad gyda thafodiaith lafar naturiol a chynhenid. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn eglur a dealladwy yn y Gymraeg. Mae gan lawer ohonynt eirfa gyffredinol a phwnc-benodol eang ac maent yn gwneud cyfraniadau buddiol ar lafar gan ddefnyddio terminoleg bynciol yn gywir a hyderus wrth roi atebion a chynnig esboniadau. Mae llawer yn ehangu ar eu hatebion a chynnig rhesymau dilys drostynt gan roi esboniadau clir a rhesymol. Mewn ychydig o sesiynau, mae disgyblion yn troi i'r Saesneg wrth drafod â'i gilydd ac maent yn betrusgar wrth fynegi'u hunain yn y Gymraeg.

Mae arweinwyr wedi cynllunio'n strategol ac effeithiol i ddatblygu medrau darllen ar draws yr ysgol ac mewn ysgolion partner. O ganlyniad i gyfeiriad ac arweiniad clir ac uchelgeisiol, mae cyfleoedd gwerthfawr i ymarfer a gwella medrau darllen ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Yn ogystal, mae staff wedi cydweithio'n gydlynus i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu uwch fedrau darllen ar draws nifer o feysydd dysgu perthnasol. Caiff disgyblion fynediad buddiol at destunau pwnc perthnasol a diddorol ac, yn aml, gosodir tasgau heriol ac ymestynnol iddynt. Mae hyn yn nodwedd arbennig.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n unol â'u hoedran a'u cam datblygiad. Maent yn darllen yn hyfedr ar goedd yn y dosbarth ac i'w cymheiriaid. Maent yn arddangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei ddarllen, gan amrywio tôn a goslef y llais i gyd-fynd â gofynion y darn. Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth

dda o atalnodi ac maent yn defnyddio strategaethau cyfarwydd yn hyderus er mwyn dehongli geiriau dieithr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn echdynnu gwybodaeth allweddol o destunau a’i grynhoi yn briodol ac mae llawer yn datblygu eu medrau craff-ddarllen yn addas mewn tasgau penodol ar draws meysydd dysgu. Un nodwedd amlwg pan mae disgyblion yn dadansoddi ac egluro testunau darllen yw’r cysondeb yn y modd y maent yn rhoi atebion estynedig, gan egluro eu rhesymeg a chryfhau hyn drwy ychwanegu enghraifft. Gwnânt hyn yn hyderus ac yn naturiol heb eu hannog.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn crynhoi gwybodaeth o destunau estynedig yn llwyddiannus a’i rhoi mewn trefn resymegol. Mae llawer yn llwyddo i ddadansoddi darnau o destun gan ddarllen rhwng y llinellau yn fedrus. Maent yn cymharu â chyferbynnu testunau estynedig o ran ieithwedd, nodweddion arddull a negeseuon er mwyn dod i gasgliadau a llunio barnau dilys.

Er y cryfderau amlwg ym medrau darllen disgyblion, mae ychydig iawn ohonynt yn straffaglu wrth ddarllen ar goedd ac yn cael anhawster deall yr hyn y maent yn ei ddarllen pan mae’r darnau yn estynedig neu’n fwy heriol. Yn ogystal, caiff ychydig ohonynt drafferthion crynhoi gwybodaeth o destunau estynedig.

Mae dealltwriaeth llawer o athrawon o sut i ddatblygu a gwella medrau ysgrifennu disgyblion yn gadarn. Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgrifennu’n estynedig mewn ystod dda o bynciau a meysydd dysgu. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn o oed ifanc. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth gyflym o ansoddeiriau cyfarwydd a llai adnabyddus ac yn eu defnyddio’n wybodus i ysgrifennu brawddegau syml i ddisgrifio eu hunain yn llwyddiannus erbyn Blwyddyn 2. Ar draws yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu’n rhwydd a rhugl gyda lefel gadarn o gywirdeb gramadegol a sillafu yn unol â’u hoedran neu’u cam dysgu. Maent yn atalnodi’n gywir ac yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol mewn paragraffau neu gan ddefnyddio is-deitlau. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud gwallau diofal mewn atalnodi, mae eu defnydd o brif lythrennau yn anghyson ac mae gwallau cystrawen a sillafu yn britho’u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn y sector uwchradd yn defnyddio ystod dda o derminoleg bynciol yn gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio nodweddion cerddorol mewn darnau o gerddoriaeth. Mae llawer yn ysgrifennu’n hyderus yn estynedig mewn nifer o bynciau tu hwnt i’r Gymraeg a Saesneg. Mewn ychydig o feysydd dysgu, nid yw athrawon yn cynnig cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau ysgrifennu. Mae’r tasgau ysgrifennu yn rhy elfennol neu rhoddir gormod o gymorth fel fframiau ysgrifennu i ddisgyblion heb fod angen.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn wrth siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg. Maent yn datblygu medrau darllen Saesneg buddiol trwy’r blynyddoedd

cynradd ac, erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn y sector uwchradd yn datblygu dealltwriaeth gadarn o genres llenyddol gwahanol ac maent yn egluro nodweddion penodol yn wybodus. Mae hyn yn aml yn arwain at ddarnau ysgrifennu sy'n efelychu'r arddulliau hyn yn llwyddiannus.

### Datblygu medrau rhifedd

Drwyddi draw, mae safonau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn. O'r dosbarthiadau dysgu sylfaen ymlaen, mae cynllunio effeithiol yn arwain at ddatblygiad medrau rhifedd cynnar cadarn, gan alluogi disgyblion i ddeall gwerth rhifau ac i gyfrif yn hyderus. Yn gyffredinol, mae cynllunio gofalus yn sicrhau dilyniant synhwyrol wrth i ddisgyblion symud drwy'r cyfnod cynradd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd symbylol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhif drwy weithgareddau sy'n berthnasol i'r ardal leol, er enghraifft wrth astudio mynyddoedd fel Carn Ingli neu ddefnyddio diagramau Venn i gymharu tai crwn Celtaidd â thai modern. Er hyn, ar ychydig adegau, mae'r gweithgareddau'n ailadroddus ac nid ydynt yn cynnig digon o her i sicrhau cynnydd. Erbyn diwedd y cyfnod cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall gwerth lle ac yn defnyddio amcangyfrif i wirio rhesymoldeb eu hatebion. Mae llawer yn trosi'n rhugl rhwng unedau mesur metrig ac yn defnyddio cyfrifianellau yn hyderus.

Yn y sector uwchradd, mae disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau rhif yn briodol. Mae llawer yn arddangos medrau cadarn wrth gyfrifo a chymhwyso'r pedwar rheol rhif. O ganlyniad i gyfleoedd buddiol yn eu gwersi mathemateg ac i raddau helaeth ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau dadansoddol cryf. Mae lleiafrif y disgyblion yn datblygu uwch-fedrau mathemategol ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i ddatrys problemau, megis symleiddio mynegiadau ac aildrefnu hafaliadau cymhleth. Mewn ychydig o achosion, mae cydweithio effeithiol rhwng yr adran fathemateg ac adrannau eraill yn arwain at athrawon yn mabwysiadu arferion priodol a chyson wrth ddysgu cysyniadau pellgyrhaeddol fel y ffurf safonol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau rhif disgyblion hŷn yn anghyson mewn ychydig iawn o bynciau perthnasol. Nid yw'r tasgau'n darparu digon o her, ac o ganlyniad, nid yw pob disgybl yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

### Datblygiad medrau digidol

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion datblygu eu medrau digidol yn gynyddol o fewn nifer o feysydd dysgu a phynciau penodol. Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion iau yn defnyddio meddalwedd ac offer digidol amrywiol i greu animeiddiadau, graffiau o fewn taenlen, cyflwyniadau a fideos amlgyfrwng o safon. Maent yn defnyddio rhaglenni addas i ymchwilio a chreu posteri, llyfrau a llythyrau digidol, gan ddangos hyder a chreadigrwydd. Yn ogystal, maent yn dysgu sut i raglennu drôn ac yn

defnyddio sgrin werdd ar gyfer cynyrchiadau digidol yn fedrus. Yn y sector uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o raglenni ac ystod eang o feddalwedd yn llwyddiannus. Maent yn creu dyluniadau 2D crefftus ac mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar fedrau digidol annibynnol cryf. Fodd bynnag, mae gan ychydig o ddisgyblion ddealltwriaeth gyfyngedig o ddibynadwyedd ffynonellau ar-lein.

### Y chweched dosbarth

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn ddysgwyr aeddfed, hyderus a gwybodus sy'n dangos diddordeb yn eu hastudiaethau. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd a'u hathrawon i ddatblygu eu medrau pynciol. Drwyddi draw, maent yn hyderus ar lafar ac yn meddu ar fedrau cymdeithasol aeddfed. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i fod yn fodelau rôl o fewn cymuned yr ysgol, er enghraifft drwy arwain y Senedd Ysgol a grwpiau eraill a meithrin perthynas agos a hynod gadarnhaol gyda'r sector cynradd.

### Y cwricwlwm

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm sydd wedi'i seilio'n gadarn ar arwyddair yr ysgol, 'Gwreiddiau a Gorwelion'. Mae arweinwyr ac athrawon yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu cydlynus sy'n pontio'r sector cynradd ac uwchradd yn effeithiol.

Mae arweinwyr a staff yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau ysgogol i ddisgyblion ddysgu a dyfnhau eu dealltwriaeth o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at yr ymdeimlad o berthyn sy'n treiddio drwy holl gwricwlwm Ysgol Bro Preseli.

### Ciplun: Datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd y mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am draddodiadau, treftadaeth a hanes yr ardal leol. Er enghraifft, maent yn dysgu am draddodiadau lleol, fel trên y Cardi Bach a Chowbois Crymych, sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn a balchder diwylliannol ymhlith disgyblion. Maent hefyd yn dysgu am gerddi Waldo a gwaith T.Llew Jones, yn dysgu enwau copaon amrywiol y Preselau ac yn ymfalchïo yn eu cysylltiadau lleol. Yn ogystal, mae'r disgyblion hŷn yn dysgu am agweddau cyfoes fel yr economi fwyd leol. Mae'r gwaith hwn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn a balchder ymysg disgyblion a staff. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o weledigaeth yr ysgol a'i lle, ynghyd â'r ardal leol, o fewn Cymru ac yn y byd ehangach - 'o'r gwreiddiau i'r gorwelion.

Un o nodweddion cryf o waith yr ysgol yw'r cyfleoedd a'r profiadau cyfoethog ychwanegol sydd ar gael i ddisgyblion ddysgu tu hwnt i'r dosbarth. Mae niferoedd uchel o ddisgyblion ar draws yr oedrannau yn mynychu clybiau allgyrsiol niferus. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon, clwb gwyddbwyll, sioeau cerdd poblogaidd a theithiau ac ymweliadau addysgol ysgogol, gan gynnwys taith i'w hysgol gyfaill 'Mount Royal' yn Lesotho. Mae'r holl brofiadau gwerthfawr hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at yr agweddau hynod gadarnhaol sydd gan y disgyblion tuag at ei gilydd a'r staff, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth a theimlad o berthyn i'w cymuned ysgol.

Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion astudio dwy iaith ryngwladol yn y sector uwchradd ac mae arweinwyr yn ystyried barn a dymuniadau disgyblion yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gallu astudio pynciau o'u dewis. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol addas sy'n ymateb i ddyheadau bron bob un o'i disgyblion ac i anghenion yr ardal leol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cwrs amaeth i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11. Mae fferm yr ysgol yn cynnig profiadau ymarferol gwerthfawr i'r disgyblion hyn ac i ddisgyblion yn y sector cynradd.

Ar draws yr ysgol, cynigir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Cynllunnir sesiynau a chyfleoedd buddiol i ddisgyblion gynyddu eu dealltwriaeth o nodweddion pwysig fel perthnasoedd iach, rhywioldeb a bywyd pobl LHDTC+. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddysgu am amrywiaeth a'i ddathlu. Ceir cydweithio cynhyrchiol rhwng yr ysgol ag ystod eang o sefydliadau ac asiantaethau allanol i gryfhau'r ddarpariaeth a datblygu ymwybyddiaeth lawn a chywir y disgyblion o faterion pwysig.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a gofalgar ble mae'r disgyblion a'r staff yn rhyngweithio'n naturiol a charedig â'i gilydd. Ar draws yr holl ystod oedran, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhagorol.

Ceir amrediad eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddod i adnabod yr oedolion sydd yn gofalu amdanynt, ac mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at yr ymdeimlad cryf o berthyn sy'n treiddio trwy'r ysgol. Cyn i'r disgyblion gychwyn yn y dosbarth Meithrin, mae staff yn cynnal ymweliadau er mwyn dod i adnabod y plant, gan sefydlu perthynas waith fuddiol â rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn adeiladu hyder y plant ieuengaf ar gychwyn eu cyfnod yn yr ysgol. Mae trefniadau effeithiol wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol o ysgolion cyfagos ar gychwyn Blwyddyn 7 a 12. Yn yr un modd, mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth a chyngor gwerthfawr ar gyfer disgyblion sydd ar drothwy symud ymlaen tuag at y cam nesaf yn eu dysgu, boed yn fyd gwaith, neu addysg bellach neu uwch.

Mae ethos cynhwysol i'w deimlo'n gryf ar draws yr ysgol. Mae'r arweinwyr lles yn cynnig arweiniad effeithiol i'r athrawon a'r tîm ymroddgar o gynorthwywyr sy'n darparu cynhaliaeth sensitif i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Maent yn cynnig amrediad o ymyraethau sydd wedi eu saernïo'n ofalus er mwyn cael y dylanwad gorau posibl ar gynnydd a lles disgyblion. Mae'r disgyblion yn siarad yn aeddfed am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael eu trin fel unigolion. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddathlu gwahaniaethau o ran cefndir a hil, ac yn rhoi ystyriaeth effeithiol i ddisgyblion sy'n profi tlodi. Mae hyn yn hybu lles y disgyblion yn llwyddiannus.

Ar draws y sector cynradd, mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddylanwadu ar gyfeiriad eu dysgu, gan awgrymu syniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn gwahanol themâu. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at berchnogaeth y disgyblion o'u dysgu. Mae'r grwpiau llais y disgybl, ynghyd â'r Senedd Ysgol, yn darparu profiadau arwain gwerthfawr. Mae aelodau'r fforymau hyn yn trafod eu meysydd  cyfrifoldeb yn aeddfed o oedran cynnar, ac maent o'r farn bod arweinwyr yn cymryd eu cyfraniad o ddifri. Mae eu gwaith wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol fel creu gardd gerllaw'r sector cynradd, lle mae'r disgyblion yn mwynhau gweithio a threulio amseroedd cymdeithasol mewn amgylchedd naturiol a hardd.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r modd y mae disgyblion hŷn yn rhyngweithio'n naturiol â'u cymheiriaid iau. Er enghraifft, yn ystod amseroedd egwyl a chinio, gwelir disgyblion Blwyddyn 6 yn chwarae gemau buarth gyda'r disgyblion iau, gan annog eu hyder wrth siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Yr un modd, mae disgyblion hŷn y sector uwchradd yn cyfarfod disgyblion y sector cynradd yn rheolaidd er mwyn hybu eu mwynhad mewn darllen. Mae disgyblion y chweched dosbarth i'w gweld mewn dosbarthiadau yn y sector cynradd yn cefnogi'r dysgu. Mae'r holl waith hwn yn hybu lles ar draws yr ysgol ac yn magu ymdeimlad cryf o Gymreictod a chymuned mewn ysgol bob oed.

Ceir arlwy eang o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer yr holl ddisgyblion lle rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion arwain gweithgareddau, er enghraifft yn y clwb hud a lledrith. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymdeithasu mewn clybiau fel y clwb dartiau, y clwb 'bach o bopeth' a'r clwb tennis bwrdd. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu boddhad o gael cymryd rhan mewn ymarferion amrywiol, gan brofi llwyddiant mewn Eisteddfodau a thwrnameintiau chwaraeon. Mae athrawon yn blaenoriaethu cynhwysiant trwy ddarparu cyfleoedd cyfartal i ddisgyblion gymryd rhan mewn cynyrchiadau dramatig a cherddorol fel Chitty Chitty Bang Bang. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad yn eu medrau cymdeithasol ac yn adeiladu balchder disgyblion yn eu hysgol.

Mae arweinwyr yn monitro a thracio presenoldeb disgyblion yn synhwyrol ac mae staff yn gweithredu system 3 cham addas er mwyn gwella presenoldeb. Mae'r ysgol yn adnabod a thargedu presenoldeb grwpiau o ddisgyblion ac yn cydweithio gyda'r swyddog presenoldeb ac asiantaethau allanol i ddarparu ymyraethau addas fel sesiynau i deuluoedd. Mae presenoldeb disgyblion yn y sector cynradd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae systemau gwella presenoldeb lled addas wedi arwain at ychydig o gynnydd ym mhresenoldeb y disgyblion yn y sector uwchradd yn 2022-23 a 2023-24. Fodd bynnag, bu gostyngiad ym mhresenoldeb y disgyblion hyn dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ym mhresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion yn sgil arweinyddiaeth glir a chydlynus y tîm ADY. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar, ac mae'r tîm yn casglu ystod eang o wybodaeth berthnasol, gan gynnwys data, i gynllunio darpariaeth addas a phwrpasol. Mae arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth am fedrau lythrennedd, rhifedd a lles emosiynol disgyblion sy'n caniatáu iddynt adnabod anghenion dysgu disgyblion penodol. Mae staff yn gweithredu ymyraethau wedi'u targedu'n addas i ddiwallu anghenion unigol. Yn y sector uwchradd, mae hyn yn cynnwys gwersi penodol wythnosol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles emosiynol, tra yn y sector cynradd, darperir ymyraethau wedi'u teilwra i gefnogi dysgwyr o'u mannau cychwyn. Mae'r 'Caban Cwtsh', sef dosbarth maethu ar gyfer disgyblion y dosbarth derbyn, yn cynnig amgylchedd cefnogol a diogel sy'n galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol.

Mae'r tîm ADY yn tracio a monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn addasu'r gefnogaeth yn ôl yr angen. Mae cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un dudalen yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion a thargedau penodol. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n briodol ar eu cyfer. Mae'r ysgol wedi llunio crynodeb defnyddiol o ganllawiau ymarferol ar ystod o anghenion penodol er mwyn cryfhau dealltwriaeth staff o anghenion disgyblion unigol ymhellach. Yn ogystal, trefnir hyfforddiant pwrpasol rheolaidd ar strategaethau cefnogi disgyblion ag ADY, sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at ymwybyddiaeth a gallu staff i gynllunio'n sensitif ac yn bwrpasol ar eu cyfer.

### Ciplun: Dathlu Niwroamrywiaeth

Mae'r ysgol wedi cymryd camau cadarnhaol i feithrin empathi, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff yr ysgol ac ysgolion cynradd partner o niwroamrywiaeth. Trefnwyd diwrnod 'Dathlu Niwroamrywiaeth' llwyddiannus fel rhan o drefniadau datblygiad proffesiynol yr ysgolion partner. Cynhaliwyd sesiynau penodol lle cafodd disgyblion yn y sector cynradd a'r uwchradd rannu eu profiadau personol o fod ar y sbectrwm awtistiaeth. Yn dilyn hyn, cafodd disgyblion hŷn yr ysgol gyfle gwerthfawr i berfformio cyflwyniad dramatig yr oeddent wedi ei greu eu hunain i holl gyfranogwyr y diwrnod hyfforddi. O ganlyniad i'r datblygiad proffesiynol perthnasol hwn, mae dealltwriaeth a hyder staff i ddarparu strategaethau ymarferol i'w defnyddio yn y dosbarth wedi cryfhau.

Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu diwylliant cadarnhaol ble mae diogelwch a lles disgyblion yn flaenoriaeth ganolog i bawb. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn a chynhwysfawr i ddiogelu disgyblion sy'n cael eu deall yn dda gan bob aelod o staff. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn ymateb yn brydlon ac yn briodol i unrhyw bryderon. Rhoddir hyfforddiant pwrpasol a rheolaidd i staff a llywodraethwyr. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol, gan rannu gwybodaeth berthnasol i sicrhau diogelwch a lles disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu'n rhagweithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw'n ddiogel. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod yn glir beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon.

### Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig a synhwyrol sy'n ymgymryd â'i rôl gyda brwdfrydedd a phendantrwydd. Mae'n gosod gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer ei hysgol a'r disgyblion. Caiff ei chefnogi'n fwriadus gan uwch dîm angerddol sydd â dealltwriaeth gadarn o'u meysydd cyfrifoldeb. Gyda'r holl staff, maent yn llwyddo i wireddu'r weledigaeth o ddarparu 'llwybr i'r copa' i'r holl ddisgyblion, a chreu un gymuned Gymreig lle mae ymdeimlad cryf o berthyn. Mae awyrgylch hapus a diogel yn yr ysgol ac ymdeimlad nerthol o gydweithio pwrpasol ymysg y staff a'r disgyblion.

Mae systemau a phrosesau cadarn yn helpu arweinwyr i ddeall a chyflawni eu rolau. Mae trefniadau rheolaeth llinell yn glir ac mae cyfarfodydd yn rhoi sylw dyledus i faterion pwysig megis canfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwarchod lles staff ac yn gweithio'n effeithiol i sicrhau eu bod yn cael yr amser a'r gefnogaeth i gyflawni eu rolau.

Mae gan yr ysgol galendr cynhwysfawr o weithgareddau addas i werthuso'i gwaith. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn casglu tystiolaeth trwy amrywiol

weithgareddau sicrhau ansawdd, er nad yw'r holl reolwyr canol yn rhan o'r broses lawn. Mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi data yn ofalus i gynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb. Cynhelir wythnosau 'gwerthuso a gwella' rheolaidd sy'n gyfle buddiol i arweinwyr ffocysu ar themâu penodol o waith yr ysgol. Er bod arweinwyr yn gwerthuso safon yr addysgu yn drylwyr, nid ydynt bob tro'n rhoi sylw digon manwl i effaith yr addysgu ar y dysgu.

Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol â'r prif flaenoriaethau gwelliant. Mae'r rhain yn adlewyrchu anghenion yr ysgol a'r gymuned leol, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu a dylunio cwricwlwm sy'n dathlu diwylliant yr ardal leol. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais amlwg ar hybu diwylliant Cymreig. Maent yn hyrwyddo'r dafodiaith leol, sy'n gwau trwy anthem newydd yr ysgol, 'Iaith Y Garreg Las'. Er hyn, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar wella presenoldeb y disgyblion hŷn.

Ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol lle mae ffocws clir ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth a lles. Trwy gydweithio grymus, mae staff wedi llwyddo i gryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu uwch-fedrau darllen disgyblion sydd bellach wedi gwreiddio ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr a darpar arweinwyr ddatblygu eu medrau arwain trwy raglenni hyfforddiant mewnol ac allanol sy'n cael eu gwerthuso'n briodol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n fuddiol o fewn amrywiaeth o bartneriaethau er mwyn ehangu'r arlwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion partner i ddechrau datblygu dealltwriaeth gytûn o les ac addysg disgyblion.

Mae bod yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn cyfrannu'n werthfawr at y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol ac yn cyfoethogi gwaith yr ysgol o ran datblygu addysgeg a medrau arwain staff. Mae trefniadau adolygu perfformiad addas ar gyfer holl staff yr ysgol. Maent yn cysylltu'n briodol gyda'r cynllun datblygu ac mae'r system yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu'n broffesiynol.

Mae'r llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol dros yr ysgol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cyflawni eu rolau yn dda, gan gefnogi a herio'n addas fel cyfeillion beirniadol. Mae gan y llywodraethwyr drosolwg priodol o gyllideb yr ysgol, sy'n cael ei rheoli'n ofalus gan y pennaeth a'r rheolwr busnes.

Mae arweinwyr yn adnabod y rhwystrau a all wynebu disgyblion o aelwydydd incwm isel, gan gynnwys tlodi cefn gwlad, ac yn cynllunio'n effeithiol i liniaru'r effaith. Er enghraifft, maent yn trefnu trafnidiaeth er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad at sesiynau academaidd ac allgyrsiol. Gwneir defnydd priodol o'r Grant

Datblygu Disgyblion, er enghraifft i ddarparu gwasanaeth gweithiwr ieuenctid sy'n cefnogi grwpiau o ddisgyblion i wella eu cymhelliant a'u medrau cymdeithasol.

Mae arweinwyr yn gweithio'n greadigol er mwyn sicrhau ymgysylltiad cryf â rhieni. Mae staff yn cynnal gweithgareddau buddiol i rieni fel gweithdai rhifedd er mwyn iddynt gefnogi eu plant. Yn ogystal, trefnir i ddarparwyr allanol roi sesiynau coginio i rieni er mwyn eu haddysgu sut i greu prydau maethlon a rhad a'u cynorthwyo gyda rheolaeth ariannol. Mae'r ysgol yn cyflogi swyddog ymgysylltu â theuluoedd er mwyn datblygu'r gwaith hwn ymhellach. Mae staff yn hyrwyddo clybiau cymunedol ac yn trefnu digwyddiadau ar y cyd, fel y Bws Brasgamu, i hybu lles disgyblion a'u teuluoedd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025